

PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Dydd Mercher, 5 Gorffennaf 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

M. Donoghue, A. Evans, M. James, H. Jones, B.A.L. Roberts, F. Walters, P.T. Warlow ac J. Williams

Hefyd yn bresennol:

Cynghorydd J. Tremlett, Aelod Cabinet dros Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraataidd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democraataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 10.15 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Davies a K. Davies.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23 PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol ynghylch ei waith yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23 . Roedd yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Craffu baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.

Roedd yr adroddiad yn bwrw golwg gyffredinol ar raglen waith y Pwyllgor a'r materion allweddol a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, roedd yr

adroddiad yn rhoi manylion am sesiynau datblygu ac am ymweliadau safle a oedd wedi'u trefnu ar gyfer y Pwyllgor yn ogystal â data am bresenoldeb.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd 2022/23.

5. GRŴP GORCHWYL A GORFFEN Y PWYLLGOR CRAFFU IECHYD & GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, DOGFEN CYNLLUNIO A CHWMPASU 2023/24

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno i gynnal adolygiad ynghylch cynnydd mewn gordewdra yn ystod plentyndod, a hynny ar ôl cais am awgrymiadau ar gyfer prosiectau posibl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Y teitl arfaethedig ar gyfer y prosiect oedd "Cychwyn Iach ac Egnïol".

Yn ogystal, roedd angen i'r Pwyllgor gadarnhau'r aelodau a ddylai fod yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a ddylai gynnwys hyd at 7 aelod sy'n wleidyddol gytbwys.

Nodwyd bod cyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i gynnal ar 18 Mai, 2023 pan oedd Cadeirydd ac Is-gadeirydd wedi cael eu penodi o blith aelodau'r Grŵp. Bydd swyddogion yr Adran Cymunedau, Addysg a Gwasanaethau Plant a'r Uned Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

PENDERFYNWYD

- 5.1 cymeradwyo Dogfen Gwmpasu y Grŵp Gorchwyl a Gorffen;**
- 5.2 cadarnhau nodau a chwmpas gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen;**
- 5.2 bod aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:-**
 - Y Cynghorydd Hazel Evans (Cadeirydd)
 - Y Cynghorydd Hefin Jones
 - Y Cynghorydd Meinir James
 - Y Cynghorydd Louvain Roberts (Is-gadeirydd)
 - Y Cynghorydd John Jenkins - Annibynnol
 - Y Cynghorydd Michelle Donoghue
 - Y Cynghorydd Rob Evans
- 5.3 Mai "Cychwyn Iach ac Egnïol" (grŵp oedran 0-11 mlwydd oed) yw teitl y Ddogfen Gwmpasu.**

6. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad craffu canlynol.

- Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd

PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.

7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 4 Hydref 2023.

**8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD
AR 7FED MEHEFIN, 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a
gynhaliwyd ar 7 Mehefin, 2023 gan eu bod yn gywir.**

CADEIRYDD

DYDDIAD